# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER, 22 GORFFENNAF 2020 AM 10.30 A.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Llesiant), N. George (Gwasanaethau'r Amgylchedd a'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), B. Jones (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Adfywio, Cludiant a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi, Lleoedd a Thwristiaeth), ac E. Stenner (Cyllid, Perfformiad a Chynllunio).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros dro – Cymunedau).

Hefyd yn Bresennol:

S. Harris (Swyddog A151 Dros Dro), R. Hartshorn (Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), G. Mumford (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Dros Dro), S. Richards (Pennaeth Strategaeth a Chynllunio Addysg), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), A. West (Rheolwr Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, Derbyniadau a Gwaharddiadau), M. Williams (Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro) ac C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni ddaeth dim ymddiheuriadau am absenoldeb i law.

### 2. DATGAN BUDDIANNAU

Fe wnaeth M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau) ddatgan buddiant fel Aelod o Bwyllgor Clwb Rygbi Penallta a gadawodd y cyfarfod pan drafodwyd Eitem 7 ar yr Agenda - Rhaglen Band B Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif – diweddariad.

### 3. CABINET – 24 MEHEFIN 2020

PENDERFYNWYD, yn amodol ar ddiwygio Cofnod rhif 6 – Ymateb y Cyngor i Bandemig y Coronafeirws, paragraff 23, a ddylai ddarllen "Mae'r Aelod Cabinet dros

Adfywio, Cludiant a Chynaliadwyedd, yn nodi'r adroddiad anhygoel a'r ymateb ardderchog gan y sefydliad, a mynegodd ei werthfawrogiad mawr i'r holl staff am eu hymdrechion yn ystod yr amser hwn", cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir.

## 4. CABINET – 1 GORFFENNAF 2020

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd i'r Cabinet Flaenraglen Waith y Cabinet, a oedd yn cynnwys manylion yr adroddiadau arfaethedig rhwng 22 Gorffennaf 2020 a 28 Hydref 2020. Atgoffwyd yr Aelodau mai dogfen weithio yw Blaenraglen Waith y Cabinet a'i bod felly yn gallu newid.

Gofynnwyd i'r Cabinet gytuno i adroddiad ar Weithio Ystwyth/ Hyblyg gael ei ystyried ym mis Medi a nodwyd, er bod y prif ffocws wedi bod ar yr ymateb i'r pandemig, y rhagwelwyd, yn dilyn Toriad Awst, y bydd Blaenraglen Waith y Cabinet yn darparu golwg fanylach ar yr adroddiadau a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet maes o law.

Ar ôl ei hystyried a'i thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Blaenraglen Waith. Drwy ddangos dwylo, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

## MATERION YR OEDD GOFYN CAEL PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL ARNYNT

## 6. CRYFHAU TÎMCAERFFILI

Cyflwynai'r adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar gyfres o adolygiadau ar draws yr awdurdod ar gyfer y Rhaglen TîmCaerffili bresennol a fydd yn rhoi cymorth pellach ar gyfer cyflawni'r model gweithredu newydd ar gyfer y Cyngor.

Nododd y Cabinet fod Strategaeth 'TîmCaerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd', yn haf 2019, wedi cael ei mabwysiadu fel ffordd o greu a rhoi ar waith fodel gweithredu newydd ar gyfer y Cyngor.

Roedd y rhaglen drawsnewid ar gyfer y sefydliad cyfan yn ei hanfod yn seiliedig ar dri phrif biler: Adolygiadau o Wasanaethau; Masnacheiddio a Chreu Lleoedd yn ogystal â llu o raglenni ychwanegol gyda'r nod o greu'r diwylliant a'r amgylchedd i gyflawni "TîmCaerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd', fel cysyniad hollgynhwysol.

Dywedwyd, ers dechrau cyfyngiadau symud COVID-19 ym mis Mawrth 2020, fod nifer o'r egwyddorion yr oedd TîmCaerffili yn ceisio'u sefydlu wedi cael eu gweld yn ddyddiol. Mae'r staff wedi llwyddo i weithredu mewn ffordd ystwyth, mae swyddogion o bob cwr o'r Cyngor wedi dod ynghyd i gyflenwi amrywiol wasanaethau newydd ac mae'r trigolion a busnesau wedi ategu'r staff hynny drwy fynd y tu hwnt i'r galw drwy wneud amrywiol waith gwirfoddol.

Ar ôl gweld effaith TîmCaerffili, mae gennym gyfle'n awr i sefydlu llawer o'r dulliau gweithredu newydd a ddefnyddiwyd dros y misoedd diwethaf a hefyd rhoi hwb i rywfaint o'r gwaith ehangach a fydd yn ategu'r modelau newydd hyn. Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhaglen o Adolygiadau Corfforaethol a fydd yn helpu'r Cyngor i gyrraedd y nod hwn.

Wrth amlinellu'r egwyddor a'r ystyriaethau a geid yn yr adroddiad, fe wnaeth y Prif Weithredwr dynnu sylw'r Cabinet at y cyd-destun ehangach ac at rai o'r materion a oedd yn wynebu'r

sefydliad a'r gymuned, megis Newid Hinsawdd, Brexit, Dirwasgiad, Pandemig a'r materion lleol yr oedd y gymuned leol a busnesau lleol yn eu hwynebu. Dywedwyd bod yr ymateb i Bandemig COVID-19 wedi gofyn am ymdrech aruthrol, bod y sefydliad wedi cael ei droi â'i wyneb i waered er mwyn ymateb a pharhau i ddarparu gwasanaethau i'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Hefyd, roedd gwaith paratoi yn mynd rhagddo rhag ofn inni gael ail don o'r feirws. Mae wedi dod i'r amlwg felly fod y gymuned yn ddibynnol ar yr Awdurdod Lleol, ac o'r herwydd, cynigiwyd cynnal 10 adolygiad a fydd yn siapio'r Cyngor ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad ac aethant ymlaen i'w drafod.

Dywedodd un Aelod o'r Cabinet fod yr adroddiad yn disgrifio set ddewr ac uchelgeisiol o adolygiadau o wasanaethau a fydd yn ein helpu i wneud mwy â llai ac yn rhoi i'r Swyddogion fwy o ymdeimlad o berchnogaeth dros eu meysydd gwaith, gan arwain at Gyngor mwy effeithlon a diwastraff. Mae masnacheiddio yn un o'r prif feysydd a drafodir yn yr adroddiad, a bydd yn darparu newid mewn diwylliant i nifer sy'n gweithio ac yn byw yn y Fwrdeistref. O ganlyniad, gofynnodd un Aelod am ragor o wybodaeth am y cynlluniau cyfathrebu a oedd wedi'u sefydlu er mwyn cyflwyno neges glir i bawb a oedd yn rhan o'r gwaith ac i ddarbwyllo'r rhai sy'n amharod i newid. Eglurodd y swyddogion mai'r prif nod yw sicrhau y bydd y broses hon yn rhywbeth a gaiff ei chyflawni gyda nhw ac nid iddyn nhw, bod ymgynghori a chyfathrebu yn hollbwysig, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gofyn gwneud rhai penderfyniadau na fydd pawb yn hapus â nhw. Mae Cyd-gynhyrchu yn hollbwysig a bydd gwybodaeth fanwl yn cael ei darparu ar wefan Caerffili, gan ymgysylltu â Chymunedau a grwpiau i'r dyfodol. Yn ogystal, o safbwynt Masnacheiddio, mae hyn yn rhywbeth y cytunwyd arno yn y gorffennol, a rhoddwyd sicrhad bryd hynny nad gwneud elw yw'r nod, ond ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau, gan alluogi iddynt fod yn fwy hunangynhaliol. Sicrhawyd y Cabinet y bydd y broses hon yn ceisio defnyddio cymorth a chyllid gan Lywodraeth Cymru pan fydd ar gael.

Ategodd yr Arweinydd fod Cyd-gynhyrchu yn wirioneddol bwysig yn y broses ac y bydd yn helpu i ail-siapio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel y mae heddiw, gan sicrhau ein bod, ar yr un pryd, yn dal i wasanaethu'r Gymuned.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r adroddiad. Drwy ddangos dwylo, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a geir yn adroddiad y swyddog: -

i) Fod yr Adolygiadau Corfforaethol a geir yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a'u cynnwys yn Rhaglen TîmCaerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd;

ii) Nodi mai Aelodau Tîm Arweinyddiaeth y Cyngor a fydd yn arwain yr Adolygiadau Corfforaethol gyda chymorth tîm prosiect a fydd â'r adnoddau priodol.

## 7. RHAGLEN BAND B YSGOLION A CHOLEGAU AR GYFER YR 21AIN GANRIF - DIWEDDARIAD

Darparai'r adroddiad i'r Cabinet ddiweddariad ar y Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif a cheisiai gymeradwyaeth y Cabinet i fwrw ymlaen i gynnal ymgynghoriad ynglŷn â phrosiectau cam 1 a oedd yn cynnwys Ysgol Arbennig Cae'r Drindod ac Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon.

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar sefyllfa bresennol Rhaglen Gyfalaf Band B (£78 Miliwn) Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac mai'r cynlluniau blaenoriaeth a enwyd ar gyfer Cam 1 o raglen Band B oedd ymestyn y ddarpariaeth yn Ysgol

Cae'r Drindod a symud ac ymestyn Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon ar hen safle Ysgol Uwchradd Cwmcarn.

Nodwyd bod y ddau brosiect wedi cael cymeradwyaeth yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen i gam Achos Busnes Llawn yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad llawn y bwriedir ei gynnal yn nhymor yr hydref 2020.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod y ddau brosiect yn y cam datblygu cynnar ac y bydd y swyddogion yn sicrhau bod yr Aelodau yn cael gwybodaeth reolaidd am bob agwedd ar y cynnig e.e. ariannol, achos busnes, proses ymgynghori ayb.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad ac aethant ymlaen i'w drafod.

Wrth nodi'r adroddiad positif, eglurodd un Aelod Cabinet ei bod yn amlwg bod Cwm Gwyddon angen ei gwella gan fod y safle wedi mynd yn rhy fach. O ran Caeau'r Drindod, mae'r ysgol yn llwyddiant ysgubol, a gyda'r twf yn y maes angen a'i safle nid nepell o'r ysbyty, mae'r datblygiad yn allweddol. Ceisiwyd eglurhad ar y gwaith cydweithredol â'r Bwrdd Iechyd ar y prosiectau hyn. Sicrhaodd y Swyddogion yr aelodau nad dyhead unochrog sydd yma, a'u bod wedi cael ymrwymiad gan y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol i gefnogi'r datblygiad. Yr uchelgais yw cael cyswllt rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, a gan fod y safle gerllaw'r ysbyty, gyda'r cyfleusterau sydd ar gael, fod cydweithrediad yn hollbwysig.

Llongyfarchodd yr Aelod Cabinet dros Addysg y Swyddogion ar adroddiad hynod ac amlinellodd y gwaith sy'n dwyn ffrwyth o ganlyniad i'r prosiect. Anogwyd yr aelodau i ymweld â safle Caeau'r Drindod os na wnaethant hynny eisoes, i weld y gwaith eithriadol a'r ddarpariaeth gwasanaethau sydd ar gael i'r plant mwyaf bregus yn y fwrdeistref. Ychwanegodd y Swyddog fod y ddau safle, a'u cyfleusterau hefyd yn ase cymunedol i blant y fwrdeistref, felly hefyd yr holl Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a geir yn adroddiad y swyddog: -

i) Nodi'r adroddiad;

ii) Cymeradwyo cynnal ymgynghoriad ar y ddau brosiect, a chynhelir yr ymgynghoriad yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru;

iii) Cymeradwyo'r cyfraniad ychwanegol i bob prosiect, fel yr amlinellir ym mharagraff 5.2.6, 5.3.7 ac yn Adran 10 o'r adroddiad.

## 8. CREU ARDAL CHWARAE NEWYDD, PONTLLANFRAITH

Ceisiai'r adroddiad gymeradwyaeth y Cabinet i greu ardal chwarae newydd oddi ar faes parcio Courthouse ar y B4251 ym Mhontllanfraith, yn lle ardal chwarae a gaiff ei digomisiynu pan fydd y gwaith i greu datblygiad Gerddi'r Siartwyr yn dechrau, ac roedd hefyd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddefnyddio arian wrth gefn i ariannu'r gwaith.

Nododd y Cabinet fod y datblygiad arfaethedig yn Gerddi'r Siartwyr wedi cael caniatâd cynllunio ym mis Gorffennaf 2020 ac y bydd y datblygiad yn cynnwys ardal hamdden, ond nad datblygiad tebyg am debyg fydd hwn, ar gyfer yr ardal chwarae bresennol, sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio gan deuluoedd sy'n cyrraedd mewn car, ac y caiff ei ddigomisiynu pan ddechreua'r gwaith adeiladu yn 2021. Er mwyn sicrhau nad yw'r ddarpariaeth chwarae gyhoeddus yn ardal Pontllanfraith yn lleihau, cynigir bod ardal chwarae newydd yn cael ei chreu ger maes parcio Courthouse ar y B4251 ym Mhontllanfraith.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod yr amcan gost o adeiladu'r ardal chwarae newydd yn £90,000 i £110,000 a chynigir bod Arian Cyfalaf Wrth Gefn a Glustnodwyd yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r prosiect.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad ac aethant ymlaen i'w drafod.

Wrth nodi'r cynnig, gofynnodd un Aelod Cabinet am wybodaeth bellach am y safle ac a fyddai'r offer chwarae yn uwchraddiad. Eglurodd y swyddogion fod yr ardal ychydig yn gyfyng, fodd bynnag, mai'r bwriad yw darparu offer newydd a chyfleusterau gwell a mwy diweddar.

Teimlai'r Cabinet y byddai'r cynnig terfynol yn elwa o rywfaint o waith sgrinio a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried a'i drafod â'r aelodau cabinet perthnasol y tu allan i'r cyfarfod yn ddiweddarach.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a geir yn adroddiad y swyddog: -

i) Cymeradwyo'r bwriad i greu ardal chwarae newydd;

ii) Fel rhan o ymarferiad craffu ehangach o ffioedd meysydd parcio, fod ffioedd maes parcio Courthouse yn cael eu hadolygu, ac yn benodol y rhoddi ystyriaeth i gymeradwyo cynnig y tair awr gyntaf am ddim yn y maes parcio;

iii) Cymeradwyo defnyddio'r £110,000 o Arian Cyfalaf Wrth Gefn a Glustnodwyd i ariannu'r prosiect.

## 9. GORCHYMYN DIOGELU MANNAU AGORED CYHOEDDUS – RHEOLI CŴN AR GAEAU CHWARAE

Ceisiai'r adroddiad gymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar ddiwygio Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus 2017 (PSPO) i gynnwys gwahardd cŵn o gaeau chwarae sydd wedi'u marcio.

Nododd y Cabinet fod Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus wedi cael eu cyflwyno gan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismon 2014, ac y gellir eu defnyddio i reoleiddio gweithgareddau, mewn mannau cyhoeddus penodol i sicrhau bod y mwyafrif ufudd yn cael defnyddio a mwynhau mannau cyhoeddus yn ddiogel rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol. O'r herwydd, mae'r gorchmynion hyn yn rhoi cyfle i wella grym gorfodi'r Cyngor i ymateb i farn y cyhoedd ynglŷn â baw cŵn.

Dywedwyd bod y Cabinet, ym mis Medi 2017, wedi cymeradwyo a mabwysiadu Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus 2017; mae'r Gorchymyn yn cynnwys y cyfyngiadau canlynol: -

- Gwahardd cŵn o bob ardal chwarae aml-ddefnydd a man chwarae plant amgaeedig
- Mynnu bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn mewn gerddi coffa amgaeedig
- Mynnu bod perchnogion cŵn yn codi baw cŵn mewn mannau cyhoeddus
- Mynnu bod perchnogion cŵn yn cario offer priodol ar gyfer delio â'r gwastraff y mae eu cŵn yn ei gynhyrchu (hynny yw, wastad â modd o godi baw eu cŵn)
- Mynnu bod perchnogion cŵn yn rhoi eu cŵn ar dennyn pan ofynna swyddog awdurdodedig iddynt wneud hynny ar unrhyw dir cyhoeddus os ystyrir bod y ci allan o reolaeth neu'n achosi niwed neu ofid er mwyn atal niwsans.

Yn ogystal â'r penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynigion uchod, penderfynodd y Cabinet hefyd mewn cyfarfod cynharach a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2017 y dylai'r cynnig i wahardd cŵn o gaeau chwarae/chwaraeon y cyngor gael ei hepgor yn y cam hwnnw o'r broses, a chael ei adolygu ar ôl 12 mis neu pan ellid gweld effaith y darpariaethau uchod.

O'r herwydd, cyflwynai'r adroddiad adolygiad o'r sefyllfa bresennol ynglŷn â baw cŵn ers gweithredu'r Gorchymyn gan gynnwys canlyniadau ymgynghoriad anffurfiol a gynhaliwyd â chlybiau chwaraeon ar draws y fwrdeistref sirol; (roedd y canlyniadau i'w gweld yn yr adroddiad) gydag 88% yn cytuno y dylid gwahardd cŵn o gaeau chwaraeon sydd wedi'u marcio. Roedd trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (adroddiad cryno) ynghlwm yn Atodiad 1 o'r adroddiad.
Cynhwyswyd portffolio o holl gaeau chwaraeon y cyngor sydd wedi'u marcio yn Atodiad 3 o'r adroddiad.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad ac aethant ymlaen i'w drafod.

Ar ôl nodi nifer y cwynion a gafwyd a'r camau a gymerwyd, fel yr amlinellir yn 5.7 yn adroddiad y Swyddogion, gofynnodd un Aelod Cabinet pa gamau pellach a gymerwyd i roi sylw i'r mater. Eglurodd y swyddogion eu bod yn patrolio'r caeau yn rheolaidd a'u bod yn nodi cwynion ac yn ymateb iddynt, gyda phatrolau wedi'u targedu yn cael eu cynnal a chamau gweithredu'n cael eu cymryd lle bo hynny'n bosibl. Dywedwyd bod ymgyrch yn mynd rhagddo i annog pobl i fod yn berchnogion cŵn cyfrifol, yn y gobaith o addysgu'r troseddwyr a'u hatal rhag gorfod cymryd camau gorfodi pellach.

Fe wnaeth un Aelod, a oedd yn gefnogol i'r ymgynghoriad, fynegi ei bryderon ynglŷn â'r effaith ar dimau chwaraeon lleol pan fu'n rhaid canslo gemau oherwydd bod baw cŵn ar y caeau chwarae, a gofynnodd pa fath o ymgynghoriad a gaiff ei gynnal ac a fydd yn cynnwys clybiau chwaraeon. Eglurodd y swyddogion mai ymgynghoriadau ar-lein a gynhelir, yn ogystal ag opsiynau ymgynghori anffurfiol, er mwyn targedu cynifer o ddefnyddwyr â phosibl. Dywedwyd fodd bynnag fod y gorchymyn cyfredol yn dod i ben ym mis Hydref, ac oherwydd Covid-19, na fu'n bosibl cyflwyno adroddiad cabinet cynharach o safbwynt y PSPO presennol. Yn y cyfamser, gallai'r Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd ymestyn darpariaethau'r PSPO presennol dan y cynllun dirprwyo. Gellid wedyn ddisodli'r estyniad cyfnod penodol hwn â darpariaethau newydd y byddai'r cabinet yn eu hystyried ar ôl y broses ymgynghori.

Trafodwyd effaith baw cŵn ar gaeau chwaraeon a'r peryglon iechyd posibl. Eglurodd y swyddogion, hyd yn oed ar ôl codi'r deunydd ysgarthol, fod yr ardal wedi'i heintio o hyd, yn benodol ag wyau llyngyr, sy'n gallu achosi problemau iechyd sylweddol ac sy'n gallu para am hyd at 3 blynedd yn y pridd ac, felly, er mwyn iechyd a llesiant, mai gwahardd cŵn ar gaeau chwaraeon sydd orau.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a geir yn adroddiad y swyddog: -

i) Cytuno i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus 10 wythnos ar y cynnig i ddiwygio Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus 2017 i gynnwys darpariaeth i wahardd cŵn ar gaeau chwarae/chwaraeon wedi'u marcio pan fydd hi'n bosibl cynnal ymgynghoriad ystyrlon â'r cyhoedd ac â'r rhanddeiliaid perthnasol;

ii) Cytuno y bydd y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn para am gyfnod tair blynedd.

Daeth y cyfarfod i ben a 11.45am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd y cofnodion fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 9 Medi 2020.

_______________________

CADEIRYDD